

Carmel

Cyflwynwyd rhoddion ariannol i Ysgol Sul Carmel, Llanllechid yn ddiweddar.

Derbyniodd rhoddion er cof am Mrs Eirian Pritchard, 1 Rhes Elfed, Bethesda, a fu farw fis Chwefror eleni.

Derbyniwyd hefyd rodd er cof am Mr John Roberts (Britannia) a fu farw fis Gorffennaf.

Diolch yn fawr iawn ar ran yr Ysgol Sul i'r ddau deulu am y rhoddion hyn a fydd o gymorth i waith yr Ysgol Sul.

Cyfarfod Gweddi Efe

Mae Cyfarfod Gweddi Efe wedi symud o fore Gwener i fore Llun, ac felly byddwn yn cyfarfod am 10.30 fore fory, Medi 19, yn 'Cartref', Caeathro. Croeso cynnes i bwy bynnag a fynno i ymuno â ni.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Nos Fercher, Medi 21: Cyfarfod Eglwys i holl aelodau Ebeneser am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Medi 25: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Trefor Jones.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Medi 25: Gwasanaethir yn yr Oedfa Deulu am 10.30 o'r gloch gan Mrs Susan Williams.

Y mis nesaf - Deiniolen

Medi 18

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Medi 25

5.00 p.m. - Y Parchg Trefor Jones

REHOBOTH

Dydd Sul, Medi 25: Ni fydd oedfa.

BETHLEHEM

Dydd Iau, Medi 22: Bwrlwm am 2.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Medi 25: Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch ac oedfa am 2.00 o'r gloch.

CARMEL

Dydd Llun, Medi 19: Dosbarth Gwau am 2.00 o'r gloch.

Nos Wener, Medi 23: Dwylo Prysyr am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Medi 25: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch ac oedfa am 5.00 o'r gloch.

CYNLLUN EFE

Dydd Llun, Medi 19: Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro am 10.30 o'r gloch.

Cyfarfod Blynyddol

Cynllun EFE

yng Nghapel y Rhos, Llanrug

Nos Lun, Medi 26

7.00 o'r gloch

Y mis nesaf - Llanberis

Medi 18

10.00 a.m. - Dr Huw Tegid Roberts
5.00 p.m. - Oedfa yng ngofal aelodau
Parti Bytholwyrdd

Medi 25

10.30 a.m. - Oedfa Deulu yng ngofal
Mrs Susan Williams



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 697: Dydd Sul, 18 Medi, 2016

Dim ond y gwir

Un o'r sefydliadau prysuraf yn yr Unol Daleithiau heddiw yw FACTCHECK.ORG. A'r hyn sy'n gyfrifol am hynny yw'r datganiadau a wneir gan wleidyddion ar drothwy'r Etholiad Arlywyddol. Ysgolheigion o Brifysgol Pensylfania sy'n cynnal prosiect FACTCHECK.ORG, a'u nod yw gwirio datganiadau'r gwleidyddion er mwyn helpu pobl i benderfynu pwy sy'n deilwng o gael eu pleidlais.

A beth mae pobl FACTCHECK yn ei wneud? Yr union beth hynny - gwirio geiriau'r gwleidyddion, i weld a ydynt yn dweud y gwir amdanynt eu hunain ac am bobl eraill ac am bob math o bynciau. Ac un o'r bobl sy'n cadw'r ysgolheigion yn rhyfeddol o brysur yw Donald Trump. Nid fo yw'r unig un, wrth gwrs, ond mae Mr Trump mor dafodrydd fel bod angen gwirio bron bopeth a ddywed.

Un enghraifft ddiweddar - wna i ddim deud 'yr enghraifft ddiweddaraf', gan y bydd yn debygol o fod wedi deud rhywbeth arall eto cyn i chi ddarllen y geiriau hyn - yw'r hyn a ddywedodd ddydd Gwener am yr holl ddadlau a fu ynghylch lle ganed yr Arlywydd Obama. Bu'r ddadl honno'n ffrwtian ers o leiaf 2008 wedi i rai honni mai yn Kenya y'i ganed, ac na ddylai felly fod yn Arlywydd am nad oedd wedi ei eni yn yr Unol Daleithiau. Ers 2011, bu Donald Trump yn un o brif ladmeryddion yr honiad hwn, er bod yr Arlywydd yn 2008 wedi cyhoeddi ei dystysgrif geni, a nodai mai yn Hawaii y'i ganed.

Cadarnhawyd hynny yn 2011 gyda chyhoeddi fersiwn lawn y dystysgrif.

Ddydd Gwener, cyfaddefodd Trump fod yr Arlywydd Obama 'wedi ei eni yn yr Unol Daleithiau, a dyna ddiwedd ar y mater'. Ond aeth yn ei flaen i ddweud mai Hillary Clinton a'i thim etholiadol yn 2008 oedd yn gyfrifol am ledaenu'r stori i ddechrau, ac mai Trump ei hun a roes daw ar y cyfan (trwy 'orfodi' Obama mae'n debyg i gyhoeddi'r dystysgrif).

Â chroen ei ddannedd y cyfaddefodd Trump y gwir. Ond fel y dangoswyd yn ddiweddarach gan FACTCHECK.ORG, mynnodd ar yr un gwynt ddweud dau gelwydd arall. Oherwydd nid Clinton a'i phobl a roes gychwyn i'r stori, ac nid Trump a roes ddiwedd iddi. I'r gwrthwyneb yn llwyr, gan iddo fynnu ar fwy nag un achlysur mai ffug oedd y dystysgrif a gyhoeddodd Obama. Mae'n amlwg na all Trump gydnabod un celwydd heb ddweud dau arall.

I'r Cristion, mae Un llawer mwy na FACTCHECK yn gwirio ei eiriau. Y Duw geirwir ei hunan sy'n gweld a chlywed pob dim, ac i'r Duw hwnnw yr ydym yn atebol am y cyfan a ddywedwn am eraill ac amdanom ein hunain. A phe byddem yn ffyddlon i'r Arglwydd, ni fyddai angen FACTCHECK o fath yn y byd ar neb o'n cydnabod. Yn nerth Duw, felly, ymdrechwn bob amser i efelychu Crist gan ddweud y gwir, fel y gall pobl ymddiried yn llwyr ynom ni a'n geiriau.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm

'Canwch fawl i'r ARGLWYDD, ei ffyddloniaid', a rhowch ddiolch i'w enw sanctyaidd. Am ennyd y mae ei ddirg, ond ei ffafr am oes; os crys dagrau gyda'r hwyr, daw llawenydd yn y bore (Salm 30:4-5).



BEIBL BYW

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan Dr Huw Tegid Roberts a bydd yr oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal aelodau Parti Bytholwyrdd.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch, a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Ddr Dafydd Wyn Wiliam.

Gwasanaethir yn Nhalybont am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Harri Parri.

Ni fydd oedfa yn Nant Peris.

Diolch i bawb sy'n gwasanaethu yn ein hoedfaon heddiw.

Cofion

Dymunwn yn dda i bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

Ebeneser

Nos Fercher, Medi 21

Cynhelir Cyfarfod Eglwys i holl aelodau Ebeneser Deiniolen yn y festri am 7.00 o'r gloch nos Fercher, Medi 21.

Sylwch ar y dyddiad. Bu raid ei newid oherwydd cyfarfod arall ar y dyddiad a gyhoeddwyd.

Gobeithio'n fawr y bydd modd i gymaint â phosibl o'r aelodau fod yno.

Mae angen ethol Ysgrifennydd a rhoi trefn ar rai pethau ymarferol.

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad at Mrs Gwyneth Williams a Mrs Joyce Tong, Penybwllch, Mynydd Llandegai a theulu Miss Glenys Williams, Caernarfon a fu farw yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun ar Fedi 6. Roedd yn chwaer i'r diweddar Clifford Williams. Bu'n flaenor yng nghapel Engedi, Caernarfon am flynydd-oedd. Cynhaliwyd ei hangladd yng nghapel Ebeneser, Caernarfon ddydd Mercher, Medi 14.

Cydymdeimlwn â Cari a Bryan Griffiths, 'Rhos y Garreg', Bethesda o glywed am farwolaeth mam Cari, Mrs Ifanwy Vaughan Jones, Llandderfel ar Fedi 10. Boed i chi brofi nerth a bendith Duw yn eich colled ac ar ddydd yr angladd yfory.

Marwolaeth

Cydymdeimlwn â theulu Miss Nancy Jones, Plas Ogwen, Bethesda (o 20 Erw Las, Bethesda) a fu farw ddydd Mercher diwethaf. Cynhelir oedfa'r angladd yng nghapel Carmel ddydd Iau, Medi 22.

Cyfarfod Ordeinio

Braint fawr i mi oedd cael cymryd rhan yng ngwasanaeth ordeinio a sefydlu Rhodri Glyn yn weinidog i Iesu Grist yn eglwys Gofalaeth Fro Aled yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan bnawn ddoe. Roedd yn oedfa arbennig iawn dan lywyddiaeth cyn weinidog yr Ofalaeth, Y Parchg Aneurin Owen, gyda'r Parchg Euros Jones yn arwain yr ordeinio ei hun a'r Parchg Meirion Morris yn pregethu.

Fe'm gwahoddwyd i gymryd rhan yn yr oedfa oherwydd cysylltiad cynnar Rhodri â'r eglwys yn Ebeneser, Deiniolen ac roedd mor braf clywed Rhodri'n cyfeirio at y cyfnod hwnnw wrth gyflwyno ei dystiolaeth cyn yr ordeiniad. Ac yntau'n wŷr i'r diweddar Brifathro R. Tudur Jones, mae Rhodri'n perthyn i deulu o weinidogion, ond roedd yn amlwg o'i dystiolaeth ei fod ef ei hun, yn groes i'w ewyllys mewn gwirionedd, wedi dod i ymdeimlo â galwad Duw i'w roi ei hun i waith gweinidog yr Efengyl.

Roedd yr oedfa o ddiddordeb arbennig i Falmai a minnau hefyd am fod capel Llanefydd yn rhan o Ofalaeth newydd Rhodri. Dymunwn bob bendith iddo yn ei waith gan wybod y bydd yn hapus iawn yn yr ardal gan ei fod yn gyfarwydd â'r eglwys wedi iddo dreulio cyfnod yno fel cynorthwy-ydd gweinidogaethol.

A ninnau mor barod yn aml i sôn yn bruddglwyfus am ddyfodol ein heglwys, gweddiwn dros Rhodri a'r gweinidogion ifanc sy'n cychwyn eu gwaith y dyddiau hyn. Boed iddynt brofi daioni Duw a chael llawenydd a llwyddiant yng ngwaith y Deyrnas

Capel Coch

Yng nghyfarfod blaenoriaid Capel Coch nos Fercher penderfynwyd ein bod yn cynnal cyfarfod agored nos Fercher, Hydref 5 i drafod y datblygiadau nesaf o ran y festri.

Mae angen gwneud rhai gwelliannau, a gwahoddwn bawb o aelodau Capel Coch a Nant Padarn i ymuno â ni i drafod yr hyn sydd i'w wneud.

Ceir rhagor o fanylion yn Gronyn cyn hynny, ond am y tro, nodwch y dyddiad, a'r amser, sef 7.00 o'r gloch.

Cyfarfod Blynyddol Efe

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Cynllun Efe yng Nghapel y Rhos, Llanrug am 7.00 o'r gloch, nos Lun, Medi 26.

Yn ystod y cyfarfod cawn glywed am waith Efe dros y flwyddyn ddiwethaf, a bydd cyfle i drafod unrhyw syniadau ar gyfer y gwaith i'r flwyddyn nesaf.

Cymdeithas Deiniolen

Bydd Cymdeithas Undebol Deiniolen yn ail ddechrau yn Nhŷ Elidir am 7.00 o'r gloch, nos Lun, Medi 26. Edrych yn ôl ar lwyddiant tîm pêl droed Cymru yn Ffrainc yn ystod yr haf a wnawn ni yn y cyfarfod cyntaf yng nghwmni Malcolm Allen, a fydd yn rhannu rhai o'i atgofion am gystadleuaeth yr Ewros yn Ffrainc. Mae croeso cynnes i chi ddod i wrando arno.

Bore Coffi Macmillan

Cynhelir Bore Coffi yn 'Manod', Ffordd Capel Coch, Llanberis at waith elusen cancr Macmillan rhwng 10.00 a 12.00 o'r gloch, ddydd Iau, Medi 29.